WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwiliad Blynyddol 2016 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**


Blwyddyn archwilio: 2015-16

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 109A2017

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn

info.officer@audit.wales

Roedd y tîm â'm helpodd i baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Jeremy Saunders, Tracey Davies, Dave Thomas ac Ann-Marie Harkin.

# Cynnwys

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 7

Adran 1: Archwiliad o'r cyfrifon 8

Rwyf wedi cyflwyno barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-16. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, rwyf wedi rhoi adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio 8

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 9

Mae trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd yn foddhaol ar y cyfan, ond mae'n parhau i gael anhawster i sicrhau sefyllfa ariannol gynaliadwy ac mae'n symud tuag at ddiffyg cronnus dros dair blynedd o oddeutu £90 miliwn 10

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu ac mae'n gosod sylfeini ar gyfer mynd i'r afael â heriau cynllunio a darparu, ond mae angen gwneud llawer o waith o hyd mewn nifer o feysydd 12

Er bod fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi enghreifftiau o arfer da a datblygiadau cadarnhaol, ceir nifer o gyfleoedd i wella hefyd, yn enwedig o ran rhoi sylw i'm hargymhellion blaenorol 15

Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf 18

Atodiad 2 – Ffi archwilio 19

Atodiad 3 - Risgiau sylweddol a nodir yn yr archwiliad 20

# Adroddiad Cryno

## Crynodeb

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2016.

2 Mae'r gwaith yr wyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

3 Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol, yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sydd yn berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Gellir gweld yr adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf yn Atodiad 1.

4 Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid dros dro. Fe'i cyflwynir wedyn i'r cyfarfod o'r Bwrdd ym mis Ionawr 2017, a darperir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

5 Ceir crynodeb o'r prif negeseuon o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: archwiliad o'r cyfrifon

6 Rwyf wedi cyflwyno barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-16.

7 Yn ogystal, rhoddais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn egluro'r ddwy ddyletswydd ariannol newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2014 gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, perfformiad y Bwrdd Iechyd lleol yn eu herbyn, a'r goblygiadau ar gyfer 2016-17.

8 Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi mewn modd priodol, a'u bod yn ffeithiol gywir. Ni wnaeth fy ngwaith ddarganfod unrhyw wendidau o bwys yn nhrefniadau rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon.

9 Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2015-16. Ceir mwy o fanylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn adran 2 yr adroddiad hwn.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

10 Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau. Roedd hyn yn cynnwys fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig pryd yr edrychwyd ar drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, ei drefniadau llywodraethu a sicrwydd a'r cynnydd a wnaed yn gysylltiedig â'r materion gwella a nodwyd y llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd ar feysydd darparu gwasanaeth penodol. Yn sgil y gwaith hwn, deuthum i'r casgliadau canlynol:

## Mae trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd yn foddhaol ar y cyfan, ond mae'n parhau i gael anhawster i sicrhau sefyllfa ariannol gynaliadwy ac mae'n symud tuag at ddiffyg cronnus dros dair blynedd o oddeutu £90 miliwn

11 Dyma ganfyddiadau allweddol fy adolygiad o drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd:

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wella cynllunio ariannol, ond mae diffyg strategaeth fanwl ar gyfer gwasanaethau clinigol yn rhwystro ei allu i sefydlu cynllun ariannol cytbwys mwy hirdymor;
- Mae'r trefniadau adrodd ariannol yn darparu gwybodaeth gadarn sy'n galluogi'r bwrdd i wneud penderfyniadau;
- Er y gwelwyd craffu a herio dwys, mae'r perfformiad ariannol yn dirywio, yn bennaf o ganlyniad i'r anhawster y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gael i leihau cyflogau amrywiadwy, ac mae'n symud tuag at ddiffyg cronnus dros dair blynedd o oddeutu £90 miliwn; ac
- Mae trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn yn gweithredu'n effeithiol er mwyn sicrhau stiwardiaeth briodol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu ac mae'n gosod sylfeini ar gyfer mynd i'r afael â heriau cynllunio a darparu, ond mae angen gwneud llawer o waith o hyd mewn nifer o feysydd

12 Dyma ganfyddiadau allweddol fy adolygiad o drefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd:

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gosod rhai sylfeini cadarn i gyflawni newidiadau yn y gwasanaeth, ond mae ganddo lawer o waith i'w wneud, gan gynnwys mynd i'r afael â'r bylchau difrifol mewn gallu a chytuno ar strategaeth ar gyfer gwasanaethau clinigol;
- Mae trefniadau sicrwydd y Bwrdd wedi'u cryfhau'n sylweddol ac mae'r pwyllgorau yn effeithiol ar y cyfan, ond mae angen cryfhau'r fframwaith ar gyfer risg a sicrwydd ar lefel is-bwyllgor; ac
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran rhoi sylw i'r materion a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd, ond mae'r cynnydd yn erbyn rhai o'r Adolygiadau Llywodraethu Allanol ac argymhellion eraill wedi bod yn arafach na'r disgwyl.

## Er bod fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi enghreifftiau o arfer da a datblygiadau cadarnhaol, ceir nifer o gyfleoedd i wella hefyd, yn enwedig o ran mynd i'r afael â'm hargymhellion blaenorol

13 Dyma ganfyddiadau allweddol fy adolygiadau archwilio perfformiad:

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei ddull strategol o reoli ei ystâd, ond mae angen trefniadau gweithredol cryfach yn sail i hyn i ddangos bod y gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian;
- Mae'r ffordd y rheolir y defnydd o staff dros dro, costau perthnasol a threfniadau ansawdd wedi gwella, ond gall y Bwrdd Iechyd wneud mwy ym mhob maes ac nid yw'n amlwg eto pa un a fydd modd cynnal y gwelliannau;
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau ym maes arlwyo a maeth cleifion, ond mae cyflymder y newid wedi bod yn araf mewn rhai meysydd. Mae lle i wella ymhellach agweddau ar y profiad amser bwyd, rhoi strategaeth ar waith, monitro'r llwybr a'r dull o adrodd i'r Bwrdd; ac
- Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i ymwreiddio ei brosesau cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol ar draws y sefydliad, er mwyn sicrhau buddion arfaethedig y contract meddygon ymgynghorol, ac i roi fy holl argymhellion cenedlaethol a lleol blaenorol ar waith.

14 Hoffem ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

15 Mae'r Adroddiad o Archwiliad Blynyddol 2016 hwn i aelodau bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a gynhaliwyd gennyf rhwng mis Rhagfyr 2015 a mis Rhagfyr 2016

16 Cynhelir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodir yn Neddf 2004[1]. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynir i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â nhw wedi'u defnyddio ar gyfer y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a

c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

17 Mewn perthynas â (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, drwy ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed yn rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu a sicrwydd;
- archwiliadau archwilio perfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd; a
- chanlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, pan eu bod yn berthnasol i'm cyfrifoldebau.

18 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

19 Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- adran 1: archwiliad o'r cyfrifon
- adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

20 Mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei hawlio i dalu am y costau gwirioneddol o wneud fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol a osodwyd yng Nghynllun Archwilio 2016.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

21 Yn olaf, mae Atodiad 3 yn amlinellu'r prif risgiau archwilio ariannol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2016 a sut y rhoddwyd sylw iddynt yn ystod yr archwiliad.

# Adran 1: archwiliad o'r cyfrifon

22 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-16. Drwy'r datganiadau ariannol hyn y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredol net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio yn briodol.

23 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- pa un a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
- pa un a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau ffeithiol – pa un a'u hachoswyd drwy dwyll neu gamgymeriad;
- pa un a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol a gofynion eraill, ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- pa un a yw'r rhan honno o'r adroddiad o gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

24 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-16. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, rwyf wedi rhoi adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio

### Roedd cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi mewn modd priodol ac yn ffeithiol gywir

25 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd y cyfrifon drafft erbyn y dyddiad cytunedig, sef 29 Ebrill 2016.

26 Yn unol â Safon Archwilio Rhyngwladol 260, mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Bwrdd Iechyd ar 1 Mehefin 2016. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r mater allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Mater a nodwyd yn yr Adroddiad o'r Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilydd |
|---|---|
| Tystiolaeth i gynorthwyo profion archwilio | Roedd peth o'r dystiolaeth a ddarparwyd gan staff y Bwrdd Iechyd i gynorthwyo ein gofynion profion archwilio nad oedd yn amserol nac yn ddigonol bob amser. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â thystiolaeth a ddaliwyd gan Gyfrifon Taladwy y Cydwasanaethau. Rydym wedi gweithio gyda staff y Bwrdd Iechyd i ddatrys hyn ar gyfer 2016-17. |

27 Yn rhan o'm gwaith archwilio ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan – deuthum i'r casgliad bod yr wybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2016; a
- datganiadau ariannol cryno a'r adroddiad blynyddol – deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn a bod yr adroddiad blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

28 Cwblhawyd fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol cronfeydd elusennol Hywel Dda ym mis Medi 2016 a chyflwynais farn ddiamod ar hyn. Roedd yn braf nodi bod yr holl faterion a godwyd yn ystod archwiliad 2014-15 wedi cael sylw.

### Ni wnaeth fy ngwaith ddarganfod unrhyw wendidau o bwys yn nhrefniadau rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon

29 Adolygais y trefniadau mewnol hynny a oedd gan y Bwrdd Iechyd a oedd yn fy nhyb i yn berthnasol i'r archwiliad er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risgiau o gamddatganiad ffeithiol yn y cyfrifon. Fodd bynnag, ni wneuthum eu hystyried at ddibenion mynegi barn ar effeithiolrwydd gweithredu'r trefniadau mewnol. Ni wnaeth fy adolygiad nodi unrhyw ddiffygion sylweddol yn nhrefniadau rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

30 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud ystod o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn. Mae'r gwaith wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at sicrhau mantoli'r gyllideb;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith asesu strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd a wnaed o ran rhoi sylw i'r argymhellion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd;
- adolygiadau o archwiliadau lleol penodol, sy'n cynnwys adolygu'r ffordd y caiff yr ystadau a staff dros dro eu rheoli; ac
- asesu'r cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud o ran ymdrin â'r problemau a nodwyd yn ystod gwaith archwilio blaenorol ac adolygu trefniadau ehangach y Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol.

31 Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd yn foddhaol ar y cyfan, ond mae'n parhau i gael anhawster i sicrhau sefyllfa ariannol gynaliadwy ac mae'n symud tuag at ddiffyg cronnus dros dair blynedd o oddeutu £90 miliwn

32 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig yn ystod 2016 wedi ystyried y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i sicrhau mantoli'r gyllideb a chreu cynaliadwyedd ariannol mwy hirdymor. Rwyf wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, y dull o fynd ati i lunio cynlluniau ariannol, y trefniadau ariannol a'r stiwardiaeth, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar faterion ariannol. Crynhoir fy mhrif ganfyddiadau isod.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wella cynlluniau ariannol, ond mae diffyg strategaeth fanwl ar gyfer gwasanaethau clinigol yn rhwystro ei allu i sefydlu cynllun ariannol cytbwys mwy hirdymor

33 Ni chafodd Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17 ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, yn bennaf oherwydd nad oedd yn dangos mantoli ariannol. Nododd y cynllun 2016-17 i 2018-19 ddiffyg net o £59.8 miliwn ar 31 Mawrth 2019. Yn hytrach, datblygodd y Bwrdd Iechyd Gynllun Gweithredol Blynyddol ar gyfer 2016-17, er ei fod yn seiliedig ar ei IMTP tair blynedd nas cymeradwywyd.

34 Ym mis Medi 2016, newidiodd Llywodraeth Cymru statws y Bwrdd Iechyd, o dan ei Drefniadau Ymyrryd ac Uwchgyfeirio ar y Cyd, o fonitro manwl i ymyrraeth wedi'i thargedu, gan nodi anghydbwysedd ariannol y cynllun a'r angen i wella'r capasiti a'r gallu i hybu newid fel y rhesymau.

35 Er nad oes IMTP a gymeradwywyd, caiff cyllidebau eu pennu gan strategaeth lefel uchel hirdymor a'r Cynllun Gweithredol blynyddol. Fodd bynnag, nid oes

strategaeth glinigol fanwl yn sail i'r strategaeth hon eto, ac mae hyn wedi golygu mai ychydig iawn o gynnydd sydd wedi'i wneud ar ddatblygu modelau gwasanaeth ariannol a chlinigol cynaliadwy.

36 Er gwaethaf sefyllfa ariannol sylfaenol y Bwrdd Iechyd, canfu fy nhîm bod y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau o ran cynllunio ariannol yn glir ac yn ddealladwy, ac mae'r trefniadau ar gyfer gosod cyllideb refeniw a chyfalaf yn foddhaol. Mae prosesau a gweithgareddau cyllidebol priodol ar waith a gwelwyd herio cadarn o'r gyllideb a'i llofnodi gan y bwrdd. Ceir rhagdybiaethau cyllidebol a Chynlluniau Gwella Costau (CIPs) clir ac mae'r risgiau ariannol wedi'u nodi, ond nid oedd yr holl gynlluniau wedi'u llunio ac ar waith ar ddechrau'r flwyddyn.

### Mae'r trefniadau adrodd ariannol yn darparu gwybodaeth gadarn sy'n galluogi'r bwrdd i wneud penderfyniadau

37 Mae'r trefniadau adrodd ariannol yn darparu gwybodaeth gadarn sy'n galluogi'r bwrdd i wneud penderfyniadau. Mae'r adroddiadau yn amlinellu'r prif feysydd o bryder, yn dangos sefyllfa onest ac yn ddigonol i hysbysu penderfyniadau pan fydd angen cymryd camau unioni.

38 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno ffurflenni monitro misol i Lywodraeth Cymru ac adroddiadau ariannol mewnol a ystyrir bob mis gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC), y Pwyllgor Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad (BPPAC) a'r Bwrdd. Mae'r Adran Gyllid yn cwblhau ei broses adrodd diwedd y mis o fewn pum diwrnod gwaith i ddiwedd y mis, a chaiff adroddiadau ar ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru eu cyflwyno erbyn y nawfed ddiwrnod o bob mis. Cefnogir yr adroddiadau i ARAC a'r Bwrdd gan ddiweddariad llafar o'r sefyllfa ariannol bresennol, ac mae'r rhain i gyd yn amserol ac yn llawn gwybodaeth.

39 O'i gymharu â chyrff iechyd eraill yng Nghymru, mae trefniadau adrodd ariannol y Bwrdd Iechyd yn dda, gan fod yn amserol a chynnwys digon o fanylder.

### Er y gwelwyd craffu a herio dwys, mae'r perfformiad ariannol yn dirywio, yn bennaf o ganlyniad i'r anhawster y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gael i leihau cyflogau amrywiadwy, ac mae'n symud tuag at ddiffyg cronnus dros dair blynedd o oddeutu £90 miliwn

40 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol ac mae ei sefyllfa ariannol yn dirywio. Roedd ei Gynllun Gweithredol Blynyddol ar gyfer 2016-17 yn rhagamcanu diffyg o £38.3 miliwn, gan gynnwys targed arbed arian heriol iawn o £29.4 miliwn. Roedd hyn yn dilyn diffyg o £7.5 miliwn yn 2014-15 a £32.1 miliwn yn 2015-16. Ym mis 8 2016-17, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gorfod cynyddu rhagamcan y diffyg ariannol ar ddiwedd y flwyddyn i £51.8 miliwn.

41 Nid yw'r arbedion arfaethedig yn cadw at yr amserlen, yn bennaf oherwydd anawsterau o ran lleihau'r gwariant ar gyflogau amrywiadwy. Daw hyn er gwaethaf trefniadau cryfach o lawer o ran defnyddio staff dros dro ac ymdrechion dyfal gan y Bwrdd Iechyd i lenwi swyddi gwag.

42 Er y bu craffu a herio dwys ar y sefyllfa ariannol ar lefel y Bwrdd a'r pwyllgor, ynghyd â'r mesurau rheoli amrywiol, mae'r Bwrdd Iechyd yn debygol o fod â diffyg o oddeutu £90 miliwn (4%) yn erbyn ei derfyn adnoddau cronnus dros dair blynedd ar 31 Mawrth 2017, ac nid yw'n debygol o sicrhau mantoli ariannol o dan ei fodel gwasanaeth presennol.

### Mae trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn yn gweithredu'n effeithiol er mwyn sicrhau stiwardiaeth briodol

43 Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith clir o swyddogaethau a chyfrifoldebau, ac mae ganddo weithgareddau a phrosesau rheoli priodol ar waith. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiadau o'r systemau ariannol craidd bob blwyddyn. Yn ystod 2015-16, rhoddodd yr Archwiliad Mewnol sicrwydd cyffredinol 'rhesymol' o effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a threfniadau rheoli'r sefydliad. Ni wnaeth fy ngwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol 2015-16 nodi unrhyw wendidau o bwys yn nhrefniadau mewnol y Bwrdd Iechyd.

44 Mae'r ARAC yn darparu lefel effeithiol o her a chraffu yn rheolaidd. Mae'r ARAC yn chwarae rhan weithredol yn y fframwaith sicrwydd, a hysbysir trwy raglen waith gytunedig, ac yn y gwaith o nodi gofynion sicrwydd newydd ar sail asesiadau risg trwy gydol y flwyddyn. Y BPPAC sy'n darparu'r trefniadau rheoli gofynnol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu ac mae'n gosod sylfeini ar gyfer mynd i'r afael â heriau cynllunio a darparu, ond mae angen gwneud llawer o waith o hyd mewn nifer o feysydd

45 Mae fy ngwaith llywodraethu a sicrwydd wedi asesu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynlluniau strategol ac adrodd, a'i ddull o ddatblygu ac adolygu fframwaith sicrwydd bwrdd. Rwyf hefyd wedi ystyried effeithiolrwydd cyffredinol y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu a'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran rhoi sylw i faterion argymhellion yr asesiad strwythuredig blaenorol a gwelliant.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn gosod rhai sylfeini cadarn i gyflawni newidiadau yn y gwasanaeth, ond mae ganddo lawer o waith i'w wneud, gan gynnwys mynd i'r afael â'r bylchau difrifol mewn gallu a chytuno ar strategaeth ar gyfer gwasanaethau clinigol

46 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gosod rhai sylfeini cadarn ar gyfer moderneiddio a newid gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys y rhaglen newid sefydliadol, a fydd yn cryfhau'r pwyslais ar gynllunio strategol, cael gafael ar fwy o allu ac arbenigedd gan sefydliadau allanol, gan adeiladu ar y capasiti a'r gallu mewnol ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud o hyd ar draws amrywiaeth o feysydd pwysig, gan gynnwys mynd i'r afael â bylchau difrifol mewn gallu a chytuno ar strategaeth ar gyfer gwasanaethau clinigol.

47 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd IMTP cymeradwy o hyd, ond mae wedi dod i gytundeb â Llywodraeth Cymru i weithio tuag at gynllun blynyddol ar gyfer 2017-2018, gyda'r bwriad o gyflawni IMTP y gellir ei gymeradwyo ar ddechrau 2018 ar gyfer y cyfnod 2018-2021. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i archwilio problemau'n drwyadl ac i adeiladu'r consensws angenrheidiol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei Amcanion Strategol yn glir, a dyna fydd wrth wraidd cyfeiriad ei daith yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth glinigol trosfwaol o hyd, sy'n agwedd bwysig sy'n sail i'w holl gynlluniau eraill. Mae cynnydd yn cael ei wneud, fodd bynnag, i helpu i hysbysu datblygiad y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol trwy ymgysylltiad ac arweinyddiaeth glinigol gryfach i gynorthwyo'r Cyfarwyddwr Meddygol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cael gafael ar arbenigedd a gallu allanol i helpu arweinyddion clinigol i ddatblygu a chyfleu eu ffordd o feddwl. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol ar gael erbyn y Bwrdd Cyhoeddus ym mis Mawrth.

48 Capasiti a gallu yw rhai o brif rwystrau'r Bwrdd Iechyd o ran maint rhai portffolios gweithredol a'r capasiti cefnogol ac, mewn rhai achosion, gallu'r strwythurau cymorth. Gallai'r cyfyngiadau hyn rwystro amcanion allweddol rhag cael eu cyflawni o fewn eu portffolios. Gan gydnabod yr heriau hirhoedlog a sylweddol sy'n ei wynebu, aeth y Bwrdd Iechyd ati i gyflwyno rhaglen newid sefydliadol ar lefel cyfarwyddwr gweithredol. Mae'r newidiadau hyn yn canolbwyntio ar gryfhau'r tîm er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti i ymdrin â'r agenda y mae'n ei wynebu. Adroddwyd y newidiadau i'r portffolio gweithredol a'r strwythur gweithredol diwygiedig yng nghyfarfod Bwrdd mis Tachwedd. Mae llawer o'r prif agweddau ar gyfer bwrw ymlaen â phrosiectau a rhaglenni moderneiddio yn llwyddiannus nad ydynt ar waith eto, megis diffyg gallu a sgiliau i reoli rhaglenni a dadansoddi data ynghyd â dawn i greu modelau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gryfhau capasiti strategol a gweithredol y sefydliad er mwyn gallu adeiladu sylfaen gryfach i foderneiddio a newid gwasanaethau, ond mae angen gwneud cynnydd cyflym ar hyn nawr. Wrth fynd ymlaen, bydd angen cryfhau trefniadau sicrwydd i fonitro ac adrodd ar gynnydd cynlluniau sy'n dod i'r amlwg.

## Mae trefniadau sicrwydd y Bwrdd wedi'u cryfhau'n sylweddol ac mae'r pwyllgorau yn effeithiol ar y cyfan, ond mae angen cryfhau'r fframwaith ar gyfer risg a sicrwydd ar lefel is-bwyllgor

49 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfûm:

- Bod y Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau sicrwydd yn sylweddol gyda fframwaith sicrwydd bwrdd cytunedig a map sicrwydd. Mae cyfleoedd yn bodoli o hyd i gryfhau'r gwaith o adrodd ar risgiau corfforaethol, megis cynnwys disgrifiad o'r trefniadau rheoli, y camau gweithredu ychwanegol sydd eu hangen a'r risg gweddilliol sydd ar ôl; a
- Bod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol ar y cyfan, a cheir tystiolaeth o welliannau parhaus i wybodaeth ar reoli a pherfformiad, ac o ran y gwaith o graffu ar yr wybodaeth hon. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod

bod cyfleoedd ar gael o hyd i gryfhau gweithrediad y pwyllgorau ymhellach. Mae gwaith wedi cychwyn i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys cymorth wedi'i dargedu i is-bwyllgorau ac mae gan bob is-bwyllgor aelod sy'n swyddog anweithredol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu'r ffordd y mae pwyllgorau'r Bwrdd yn gweithredu a bydd y strwythur terfynol yn cael ei drafod yng nghyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd ym mis Ionawr 2017.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran rhoi sylw i'r materion a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd, ond mae'r cynnydd yn erbyn rhai o'r Adolygiadau Llywodraethu Allanol ac argymhellion eraill wedi bod yn arafach na'r disgwyl

50 Mae'r Bwrdd wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran rhoi sylw i'r materion a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd, ond mae'r cynnydd yn erbyn rhai o argymhellion yr Adolygiad Llywodraethu Allanol wedi bod yn arafach na'r disgwyl. O'r wyth argymhelliad yn yr Asesiad Strwythuredig, cwblhawyd pedwar a chwblhawyd tri yn rhannol. O'r un sydd heb ei gwblhau, mae gwaith wedi cychwyn.

### Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer monitro a chraffu ar gynnydd yn erbyn fy argymhellion blaenorol, ond er hyn, mae'r cynnydd o ran ymdrin â rhai o argymhellion yr archwiliad wedi bod yn araf

51 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau ei brosesau o olrhain argymhellion archwiliadau er mwyn sicrhau bod holl argymhellion archwiliadau allanol a mewnol yn cael eu holrhain mewn un lle. Y pwyllgor a'r is-bwyllgorau â chyfrifoldeb sy'n gyfrifol am fonitro'r cynnydd a dilysu'r gwaith o weithredu cynlluniau gweithredu. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn ystyried y broses olrhain lawn bob chwe mis er mwyn craffu ar y cynnydd a'i herio. Gwnaeth fy ngwaith archwilio nodi cyfleoedd lle y gallai'r gwaith craffu gael ei gryfhau ymhellach, trwy sicrhau bod swyddogion cyfrifol yn darparu diweddariadau cyson ar gynnydd a thrwy nodi nifer yr argymhellion nad ydynt wedi cael sylw yn glir yn yr adroddiad cryno.

52 Yn ôl adolygiad o'r trefniadau olrhain a oedd yn ymwneud â'r gwaith archwilio a gwblhawyd gennyf ers 2012, o'r 152 o argymhellion yr oeddwn wedi'u gwneud, roedd 79 ohonynt wedi'u cwblhau yn gyfan gwbl neu'n rhannol a 65 ohonynt heb gael sylw. Cynhaliwyd cyfarfod arbennig gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrhau (ARAC) ym mis Ebrill 2016 er mwyn cael sicrwydd ac er mwyn herio'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r prif swyddogion ar y cyflymder yr oeddent yn mynd i'r afael â'm hargymhellion a oedd eto i'w cwblhau. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r cynnydd yn ofalus ac yn craffu ar Gyfarwyddwyr Gweithredol tan y bydd yn fodlon bod cynnydd digonol yn cael ei wneud.

53 Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn herio pa mor gyflym a manwl y caiff argymhellion o'r Adolygiad Llywodraethu Allanol eu rhoi ar waith. Mae'r cynnydd yn erbyn y rhain yn arafach na'r disgwyl ac, ar brydiau, caiff y cynnydd ei adrodd mewn modd mwy cadarnhaol nag yw'r gwirionedd.

## Er bod fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi enghreifftiau o arfer da a datblygiadau cadarnhaol, ceir nifer o gyfleoedd i wella hefyd, yn enwedig o ran rhoi sylw i'm hargymhellion blaenorol

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei ddull strategol o reoli ei ystâd, ond mae angen trefniadau gweithredol cryfach yn sail i hyn i ddangos bod y gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian

54 Canfu fy ngwaith bod y dull strategol o reoli'r ystadau yn well nag yr oedd o'r blaen, ond mae'n bosibl gwneud mwy o welliannau eto. Er bod y strategaeth ar gyfer yr ystadau yn gam cyntaf da, mae angen ei datblygu ymhellach, ac mae rhan o hynny yn dibynnu ar gael IMTP cytunedig. Mae'r atebolrwydd yn fwy eglur bellach, ond mae angen cryfhau'r gwaith craffu, rheoli perfformiad a chynllunio busnes. Canfûm fod gwelliannau yn yr wybodaeth am eiddo yn arwain at reolaeth well o risgiau, megis asbestos, ac mae technoleg newydd yn cefnogi gwelliannau mewn defnyddio mannau gwag. Canfûm welliannau hefyd i'r ffordd y caiff y rhaglen gyfalaf ei chytuno, ei rheoli a'i monitro, ond nid yw'r costau refeniw cysylltiedig ar gyfer y dyfodol yn cael eu cydnabod bob amser.

55 Er bod peth tystiolaeth o berfformiad da, nid yw'r trefniadau yn ddigon clir i sicrhau bod y gwasanaeth ystadau yn darparu gwerth am arian yn gyson. Hefyd, nid yw'r gwaith o reoli perfformiad yn ddigon cryf i ddangos gwasanaeth effeithlon ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid. Mae'r hanes gosod cyllideb ers sawl blwyddyn yn golygu efallai nad yw cyllideb bresennol yr ystadau yn adlewyrchu uchelgeisiau'r Bwrdd Iechyd yn llwyr. Er bod yr adran wedi cyflawni gostyngiad sylweddol mewn costau, golyga'r diffyg cynllun hirdymor bod risg y gellid colli cyfleoedd i wella gwerth am arian yn y tymor hwy. Canfu fy ngwaith berygl bod yr ystadau yn ymgymryd â gormod o waith trwsio adweithiol, a fyddai'n cynrychioli gwerth gwael am arian. Er bod rhai agweddau ar hyfforddiant wedi gwella, nid oes unrhyw ddull strategol ar gyfer hyfforddiant a chynllunio'r gweithlu, ac mae absenoldeb oherwydd salwch yn uchel.

### Mae'r ffordd y rheolir y defnydd o staff dros dro, costau perthnasol a threfniadau ansawdd wedi gwella, ond gall y Bwrdd Iechyd wneud mwy ym mhob maes ac nid yw'n amlwg eto pa un a fydd modd cynnal y gwelliannau

56 Canfu fy ngwaith bod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu dealltwriaeth dda o'r ffactorau sy'n sbarduno ei alw am staff dros dro, trwy raglen waith â phwyslais. Fodd bynnag, er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i leihau'r galw ar staff dros dro, mae'n parhau i gael anhawster i lenwi swyddi, a fyddai'n osgoi'r defnydd diangen o staff dros dro a gwneud y defnydd gorau o staff parhaol.

57 Mae gan y Bwrdd Iechyd wybodaeth ariannol dda i gefnogi'r gwaith o graffu ar gostau staff dros dro a'u rheoli. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd wedi rhoi mesurau rheoli newydd ar waith sy'n llwyddo i leihau costau staff nyrsio asiantaeth, ond mae'n rhy gynnar i wybod a fydd hyn yn cael ei gynnal ac mae lleihau costau staff meddygol dros dro yn heriol.

58 Er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau rhesymol i sicrhau ansawdd staff dros dro cyn eu cyflogi, mae lle i gryfhau hyn ymhellach. Mae camau yn cael eu cymryd i gryfhau'r gwaith o ymsefydlu staff nyrsio dros dro, ond mae angen iddo wneud mwy i gryfhau'r gwaith o ymsefydlu staff meddygol dros dro tymor byr. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio gwybodaeth am ddigwyddiadau a chwynion am staff dros dro yn systematig i lywio'r gwaith o reoli risg, ond mae'n ymateb i broblemau unigol wrth iddynt godi.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau ym maes arlwyo a maeth cleifion, ond mae cyflymder y newid wedi bod yn araf mewn rhai meysydd. Mae lle i wella agweddau ar y profiad amser bwyd, rhoi strategaeth ar waith, monitro'r llwybr a'r dull o adrodd i'r Bwrdd

59 Canfu fy ngwaith bod y trefniadau ar gyfer asesu a diwallu anghenion dietegol a maethol cleifion yn gwella'n araf, ond nid oes unrhyw fecanwaith ar gyfer monitro'r llwybr gofal maethol llawn yn rheolaidd. Mae'r cyfraddau sgrinio maeth yn amrywio ac yn llawer is yn Ysbyty Llwynhelyg, ond mae'r gwaith o asesu iechyd y geg wedi gwella'n sylweddol. Cynhaliwyd asesiad cynhwysfawr o'r llwybr gofal maethol yn ystod 2013-14 ond nid yw wedi'i ailadrodd. Caiff eitemau ar y fwydlen eu hasesu'n faethol trwy'r Fframwaith Bwydlen Cymru Gyfan, y mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio ag ef i raddau helaeth.

60 Canfu fy ngwaith archwilio mai ychydig iawn o wybodaeth ysgrifenedig sydd ar gael i gleifion am beth i'w ddisgwyl o ran bwyd a byrbrydau a chaiff ymdrechion i gydymffurfio â'r safonau ar gyfer byrbrydau, diodydd poeth ac ail-lenwi jygiau dŵr cleifion eu cyfyngu gan ddiffyg adnoddau ariannol a staffio. Mae amrywiaeth briodol o ddewisiadau ar gael i gleifion ar y fwydlen, ond mae'r gweithdrefnau i helpu cleifion i ddewis yn anghyson. Mae lefelau'r cymorth a'r oruchwyliaeth gan nyrsys yn ystod amserau bwyd yn amrywio ac mae angen gwneud mwy o welliannau i ymwreiddio amserau bwyd gwarchodedig.

61 Mae costau arlwyo cleifion yn lleihau, ond mae'r costau fesul pryd bwyd claf yn fwy na chyfartaledd Cymru. Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud tuag at weithredu dull system gyfan o reoli gwastraff bwyd, ond mae angen gwneud mwy. Mae gwasanaethau arlwyo i bobl nad ydynt yn gleifion yn dal i wneud colled, ond mae'r bwlch rhwng incwm a chost yn lleihau. Caiff y gwaith o weithredu strategaeth maeth a hydradu ei rwystro gan ddiffyg seilwaith gweithredol ac ychydig iawn o adroddiadau a gyflwynir i'r Bwrdd ar faeth ac arlwyo. Mae'r llinellau atebolrwydd ar gyfer maeth ac arlwyo yn glir, ond nid yw'r seilwaith gweithredol y bydd y camau strategol yn cael eu gweithredu trwyddo yn ddigon eglur. Ychydig iawn o

adroddiadau a gyflwynir i'r Bwrdd ar faeth ac arlwyo; ac mae mecanweithiau effeithiol ar waith i gofnodi a gweithredu ar sylwadau cleifion.

### Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i ymwreiddio ei brosesau cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol ar draws y sefydliad, er mwyn sicrhau buddion arfaethedig y contract meddygon ymgynghorol, ac i roi fy holl argymhellion cenedlaethol a lleol blaenorol ar waith

62 Canfu fy ngwaith mai dim ond yn ddiweddar yr adferwyd yr arweinyddiaeth weithredol a'r trosolwg corfforaethol o'r broses cynllunio swyddi, ac roedd hyn wedi effeithio ar gynnydd. Darparodd y Bwrdd Iechyd ganllawiau manwl yn ystod 2011 ar osod a mesur canlyniadau, ond mae hyn yn dal i fod heb ei ymwreiddio ar draws y sefydliad. Canfu fy ngwaith nad oedd cyfarfodydd adolygu cynlluniau swyddi yn dilyn y trefniadau a oedd wedi'u nodi yn y canllawiau yn gyson. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu hyfforddiant ad hoc i reolwyr ac arweinwyr clinigol, ond canfu fy ngwaith mai dim ond ychydig o dan hanner y meddygon ymgynghorol fyddai'n croesawu mwy o hyfforddiant. Er bod gwerthuso blynyddol wedi'i ymwreiddio ar draws y sefydliad, mae angen cryfhau'r cysylltiadau rhwng gwerthuso a chynllunio swyddi. Mae newidiadau diweddar i adrodd ar berfformiad integredig ar lefel y Bwrdd yn rhoi sicrwydd cadarnhaol bod y gwaith o gynllunio swyddi yn cael ei wneud bob blwyddyn.

63 Er bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd i sicrhau'r buddion arfaethedig o'r contract, mae mwy i'w wneud o hyd. Er bod cynllunio swyddi yn cynorthwyo trafodaethau gwell rhwng rheolwyr a chlinigwyr ynghylch moderneiddio gwasanaethau, canfu fy ngwaith bod gan y Bwrdd Iechyd fwy o waith i'w wneud i wneud y cysylltiad rhwng capasiti a chynllunio. Yn ogystal â hyn, er bod y Bwrdd Iechyd yn gofyn am dystiolaeth ar bob Gweithgaredd Proffesiynol Ategol (SPAs) ac yn gwneud mwy o waith i gynorthwyo gwaith ymchwil ac archwilio, mae angen iddo wneud mwy o waith o hyd i hyrwyddo'r gwaith o osod a monitro canlyniadau SPA. Mae angen gwneud mwy o waith ar fonitro sesiynau er mwyn deall oriau gormodol a gwneud defnydd gwell o gynllunio swyddi mewn tîm. Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu problemau arbennig o ran lefelau uchel o swyddi gwag ar gyfer meddygon ymgynghorol ac anawsterau recriwtio, ac mae'n ceisio mynd i'r afael â'r rhain. Nid yw'r contract meddygon ymgynghorol wedi cael fawr iawn o effaith ar recriwtio a chadw.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwiliad Blynyddol diwethaf

Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwiliad Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwiliad ariannol** | |
| Adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2016 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2016 |
| Adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusennol | Medi 2016 |
| Barn ar Ddatganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol | Medi 2016 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad Dilynol o Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai | Chwefror 2016 |
| Adolygiad Dilynol o'r Contract Meddygon Ymgynghorol | Mehefin 2016 |
| Ystadau ac asedau: archwiliad lleol 2015 | Gorffennaf 2016 |
| Defnyddio staff Dros Dro: archwiliad lleol 2015 | Hydref 2016 |
| Asesiad Strwythuredig 2016 | Rhagfyr 2016 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2016 | Chwefror 2016 |

Arddangosyn 3: Gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau a ragwelir |
|---|---|
| Adolygiad o Wasanaethau Radioleg | Chwefror 2017 |
| Adolygiad o Wasanaethau y tu allan i oriau arferol Meddygon Teulu | Mawrth 2017 |
| Adolygiad o Gynllunio Rhyddhau Cleifion | Mai 2017 |
| Rheoli Cleifion Allanol Dilynol (diweddariad o'r cynnydd) | Mai 2017 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2016 ffi archwilio arfaethedig o £417,235 (heb gynnwys TAW). Pan fyddaf wedi cwblhau'r holl waith a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2016, bydd y Bwrdd yn cael ei hysbysu o'r ffi wirioneddol.

# Atodiad 3

## Risgiau sylweddol a nodwyd yn yr archwiliad

Arddangosyn 4: Risgiau sylweddol a nodwyd

| Risg sylweddol a nodwyd | Ymateb a gynigir gan yr archwilydd | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y gallai'r diystyru hwn fod yn anrhagweladwy, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu er mwyn canfod tuedd;<br>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol nad ydynt yn rhan o'r busnes arferol. | Roedd yr holl gofnodion a brofwyd mewn dyddlyfrau yn briodol.<br>Ni wnaethom nodi unrhyw dueddiadau yn ein hadolygiadau o'r amcangyfrifon cyfrifyddu.<br>Ni wnaethom nodi unrhyw drafodiadau sylweddol nad oeddent yn rhan o'r busnes arferol. |
| Ceir risg o gamddatganiad ffeithiol oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw, felly fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.26-27]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• adolygu a phrofi'r ffrydiau cyllid ac incwm unigol a dderbynnir gan y Bwrdd Iechyd; ac<br>• ystyried a yw pob ffrwd cyllid ac incwm wedi'u nodi. | Ni wnaeth ein profion ganfod unrhyw dystiolaeth o dwyll ffeithiol a chadarnhawyd bod pob ffrwd cyllid ac incwm disgwyliedig wedi'u cofnodi. |

| Risg sylweddol a nodwyd | Ymateb a gynigir gan yr archwilydd | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Ceir risg sylweddol y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni ei derfyn adnoddau refeniw blynyddol. Dangosodd y sefyllfa ym mis 9 ddiffyg hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn o £25.3 miliwn a rhagwelir diffyg diwedd blwyddyn o £32.5 miliwn.<br>Efallai y byddaf yn dewis cyhoeddi adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol yn esbonio'r methiant a'r amgylchiadau a arweiniodd at y methiant hwnnw.<br>Mae'r pwysau ariannol ar y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn cynyddu'r risg y gallai penderfyniadau ac amcangyfrifon y rheolwyr fod yn rhagfarnllyd mewn ymdrech i gyflawni'r terfyn adnoddau. | Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ei brofion ar feysydd yn y datganiadau ariannol a allai gynnwys rhagfarn wrth adrodd. | Ni wnaeth ein profion ganfod unrhyw dystiolaeth o ragfarn mewn adroddiadau.<br>Cyflwynais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd, gan egluro gofynion y ddyletswydd ariannol newydd a sefyllfa'r Bwrdd Iechyd. |
| Ceir risg sylweddol y bydd y Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau mawr ar ei sefyllfa arian parod erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r adroddiad monitro ym mis 9 yn rhagweld diffyg arian parod/balans o £32.7 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.<br>Mae diffyg arian parod yn debygol o gynyddu amseroedd talu i gredydwyr ac effeithio ar berfformiad Polisi Talu'r Sector Cyhoeddus (PSPP). | Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio'r PSPP, gan ystyried y pwysau arian parod ar y Bwrdd Iechyd. | Adroddodd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi methu yn ei ddyletswydd weinyddol i dalu 95% o gredydwyr o fewn 30 diwrnod. Gan hynny, ychydig iawn o waith archwilio y gellid ei wneud yn y maes hwn. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.